

## **Gwybodaeth i Eglwysi gan y Rhwydwaith Materion Amgylcheddol ar Faterion Allweddol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd ar ôl COP26**

Cyfarfu Rhwydwaith Materion Amgylcheddol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (EIN) ar ddechrau 2022 i drafod y tri phrif fater sy'n ymwneud â'r hinsawdd y byddem yn dymuno annog eglwysi i barhau i ymgyrchu yn eu cylch yn y flwyddyn dyngedfennol yn dilyn COP26.

Fel grŵp, cytunasom mai'r tri mater pwysicaf yw: rhoi terfyn ar ddatblygu tanwydd ffosil gan y DU; digolledu gwledydd yn y De Byd-eang am golled a difrod a achosir gan newid hinsawdd; a Thröedigaeth Ecolegol.

Credwn fod gan yr eglwys lais allweddol fel rhan o gymdeithas sifil i alw ar ein harweinyddion cenedlaethol i gymryd camau dewr a chadarnhaol i ddiogelu ein cartref cyffredin yn wyneb argyfwng yr hinsawdd a'r argyfwng ecolegol. Rydym hefyd yn cydnabod bod yr argyfwng hinsawdd yn fater o gyfiawnder, gyda'r rheini sydd fwyaf bregus yn wyneb yr hinsawdd yn dioddef effeithiau anghyfartal. Yn y cyfnod yn arwain at COP26 fe luniodd clymblaid o aelodau EIN fenter Sul yr Hinsawdd, gan geisio annog pob eglwys, ac yn arbennig y rhai nad oeddent eto wedi gweithredu ar newid hinsawdd, i gymryd rhan wrth i'r DU groesawu trafodaethau hinsawdd rhyngwladol i'n hynysoddd. Er bod COP26 drosodd, mae llywodraeth y DU yn parhau i fod yn Llywydd ar COP, yn gyfrifol am stiwardio canlyniadau'r gynhadledd, tan COP27 a gynhelir yn yr Aifft ddiwedd 2022. Felly, mae'n bwysig iawn bod eglwysi yn parhau i godi llais a dal Llywodraeth y DU i gyfrif am gyflawni ac adeiladu ar ganlyniad COP26.

Roedd Sul yr Hinsawdd yn gydwethrediad unigryw rhwng enwadau ac elusennau Cristnogol. Gwyddom mai'r ffordd orau y gallwn wynebu'r dyfodol a'r argyfwng hinsawdd yw gyda'n gilydd. Ein gobaith yw y bydd y papur briffio hwn yn dod yn adnodd defnyddiol i eglwysi o ran y tair blaenoriaeth nesaf hyn. Mae'n arwydd o'r cydweithio parhaus rhwng aelodau EIN. Rydym yn annog eglwysi i gysylltu â'i gilydd yn lleol, i ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio i gael mwy o effaith ar y cyd o ran newid hinsawdd yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae EIN yn dod o dan ymbarél Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, ac yn cynrychioli mwy na 30 o enwadau a mudiadau Cristnogol. Lluniwyd y papur briffio hwn gan A Rocha UK ar ran Sul yr Hinsawdd gyda chyfraniadau gan Gymorth Cristnogol, Operation Noah a'r Grŵp Tröedigaeth Ecolegol.



## 1. Rhoi diwedd ar ddatblygiadau tanwydd ffosil newydd yn y DU

### Cyd-destun datblygu tanwydd ffosil yn y DU:

Dywedodd yr Asiantaeth Ynni Ryngwladol (IEA) yn ei [Llwybr at Sero Net erbyn 2050](#) ar gyfer 2021 na all fod unrhyw ddatblygiadau glo, olew a nwy newydd os yw'r byd am gyfyngu gwresogi byd-eang i 1.5°C.

Un o nodau allweddol COP26 ym mis Tachwedd 2021 oedd 'cadw 1.5 yn fyw'. Roedd y cytundeb a ddeilliodd o COP26 - Cytundeb Hinsawdd Glasgow – yn hanesyddol am mai dyma'r cytundeb COP cyntaf i gydnabod yr angen i dynnu'r byd oddi ar danwydd ffosil gan mai dyma'r ffynhonnell unigol fwyaf o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae eithrio tanwydd ffosil o'r cytundebau rhyngwladol hyn am gyhyd yn darlunio pŵer y 'lobi' tanwydd ffosil a'r gwledydd sy'n eu cynhyrchu. Yn Glasgow, taflwyd goleuni llachar ar rôl tanwydd ffosil wrth achosi'r argyfwng hinsawdd ac roedd y cytundeb yn galw am 'gamu i lawr' o lo (y tanwydd mwyaf niweidiol oll i'r hinsawdd) a diweddu cymorthdaliadau tanwydd ffosil 'anefeithlon'.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn a llwyddiant yr ymgyrch [Stop Cambo](#), mae cwmnïau olew a nwy yn parhau i archwilio ac echdynnu tanwydd ffosil newydd yn y DU. Rhagwelir y [bydd Shell yn gwario mwy nag unrhyw weithredwr arall](#) ym Môr y Gogledd ar archwilio a datblygu meysydd newydd yn y cwpl o flynyddoedd nesaf.

Mae BP, Shell a chwmnïau olew mawr eraill hefyd yn [lobïo yn erbyn deddfwriaeth hinsawdd](#). Cafodd [mwy na 500 o lobïwyr tanwydd ffosil fynediad i COP26](#), mwy na'r ddirprwyaeth fwyaf gan unrhyw wlad. Mae hyn yn gwbl groes i gytundebau a lofnodwyd gan Lywodraeth y DU yn COP26. Mae cwmnïau tanwydd ffosil yn [gweithredu'n groes i hawliau dynol ac yn ansefydlogi cymunedau](#) yn Neheudir y byd, er mai ynni adnewyddol bellach yw'r [math rhataf o ynni](#) yn y rhan fwyaf o'r byd.

Mae arnom angen ar fyrder trawsnewidiad teg a chyflym, sy'n cynnwys dadfuddsoddi o danwydd ffosil a buddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd.

Gall eglwysi chwarae rhan allweddol wrth gataleiddio'r newid hwn i ynni glân drwy eu polisïau buddsoddi. Mae'r rhan fwyaf o enwadau Cristnogol y DU wedi dadfuddsoddi'n llwyr oddi wrth gwmlnïau tanwydd ffosil, gan gynnwys [Bwrdd Cyllid Canolog yr Eglwys Fethodistaidd](#), yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig.

Mae llawer o esgobaethau Eglwys Loegr a'r Eglwys Gatholig yn ymuno â nhw, gan gynnwys Esgobaethau [Rhydychen](#), [Norwich](#) a [Durham](#) o fewn Eglwys Loegr, ac [Archegobaeth Gatholig Birmingham](#). Mae [Esgobaeth Truro](#) wedi dadfuddsoddi o danwydd ffosil ac wedi buddsoddi bron i £2 filiwn mewn cronfeydd sy'n buddsoddi'n uniongyrchol mewn ynni adnewyddadwy.

Gall cymunedau ffydd gael llais allweddol wrth eiriol dros y newid hwn, ac rydym yn gweld hyn ar raddfa ryngwladol gan fod y Fatican wedi argymhell [dadfuddsoddi o danwydd ffosil a buddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd](#).

**Tri cham gweithredu y gall eglwysi eu cymryd i gefnogi diweddu datblygiadau tanwydd ffosil yn y DU:**

1. Ysgrifennwch at eich Aelod Seneddol yn San Steffan yn galw am [ddim meysydd olew a nwy newydd](#) a [threth gorelw ar gwmnïau tanwydd ffosil](#).
2. **Dadfuddsoddi eich eglwys:** Gallwch annog eich eglwys (neu esgobaeth) leol i ddadfuddsoddi o gwmnïau tanwydd ffosil. Hyd yn oed os nad oes gan eich eglwys fuddsoddiadau tanwydd ffosil ar hyn o bryd, fe all ymrwymo i ddadfuddsoddi drwy addo peidio â buddsoddi mewn tanwydd ffosil yn y dyfodol. Darganfyddwch fwy ar wefan ymgyrch Operation Noah, [Bright Now](#) neu e-bostiwch [bokani.tshidzu@operationnoah.org](mailto:bokani.tshidzu@operationnoah.org) i gofrestru eich diddordeb.
3. Cefnogi'r [Cytundeb Atal Amlhau Tanwydd Ffosil](#): Mae hon yn fenter fyd-eang i symud fesul cam tuag at ddileu defnyddio tanwydd ffosil a chefnogi trawsnewidiad cyfiawn. Mae'r cytundeb yn ceisio atal amlhau tanwydd ffosil trwy roi terfyn ar bob archwilio a chynhyrchu newydd. Gallwch chi lofnodi'r [llythyr ffydd](#) fel unigolyn neu sefydliad.

Gyda diolch i Operation Noah am y wybodaeth am ddatblygu tanwydd ffosil.



## 2. Cyllid hinsawdd i wneud iawn am Golled a Difrod

### **Beth yw colled a difrod?**

Mae digwyddiadau tywydd eithafol a digwyddiadau sy'n datblygu'n araf yn arwain at Golled parhaol a Difrod anadferadwy, na ellir ei addasu na'i atgyweirio'n llawn. Erbyn 2030, amcangyfrifir y bydd cost economaidd Colled a Difrod yn unig rhwng \$290 a \$580 biliwn mewn gwledydd sy'n datblygu. Bydd y gost ddynol a'r colledion aneconomaidd hyd yn oed yn uwch<sup>1</sup>. Gwledydd sydd wedi'u lleoli yn Neheudir y Byd yw'r rhai mwyaf bregus, ac maent yn ysgwyddo baich newid hinsawdd er maen nhw sy'n cyfrannu leiaf at y broblem.

Mae hyn yn gwneud Colled a Difrod yn fater o gyfiawnder.

Er enghraifft, mae Madagasikara yn dioddef o'r sychder gwaethaf ers pedwar degawd. Mae Bangladesh yn wynebu heriau datblygu yn rheolaidd yn sgil trychinebau hinsawdd a thrychinebau nad ydynt yn rhai hinsoddol megis llifogydd, seiclonau, ymchwyddiadau llanw, ymwithiad halltedd ac erydiad gan afonydd. Mae trychinebau o'r fath yn amlhau am fod effeithiau newid hinsawdd yn cynyddu. Gallwch chi glywed lleisiau o Ddeheudir y Byd yn disgrifio eu profiad o Golled a Difrod a'r ymateb sydd ei angen arnynt wrth ddefnyddio'r [ddolen hon](#).

Effeithir yn anghymesur ar ferched ifainc a mewn oed a chymunedau ymylol Deheudir y Byd gan y trychinebau cynyddol ddwys ac aml. Gwaethygir ymleiddio merched gan yr argyfwng hinsawdd, oherwydd eu rolau a chyfrifoldebau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r syniad o Golled a Difrod wedi bod yn flaenllaw mewn trafodaethau hinsawdd ers blynyddoedd. Yn COP26, yr Alban oedd y wlad gyntaf i addo cyllid i fynd i'r afael â'r mater, cam a groesawyd yn eang gan ymgyrchwyr hinsawdd a oedd yn ei weld yn ddatblygiad o bwys. Mae llawer o wledydd bregus ac isel eu hincwm, serch hynny, yn anhapus iawn gyda'r diffyg cynnydd, a bydd Colled a Difrod yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda hinsawdd drwy gydol 2022 a thu hwnt. Mae llywyddiaeth y DU wedi helpu creu momentwm y mae'n rhaid adeiladu arno nawr tuag at COP27, i sicrhau cyllid hinsawdd gan gynnwys arian newydd ac ychwanegol ar gyfer Colled a Difrod.

Ers blynyddoedd, bu trafod ar un ffynhonnell bosibl o gyllid Colled a Difrod, sef yr egwyddor 'Y Llygrwr sy'n Talu', gan arbenigwyr, ymgyrchwyr a mudiadau gan gynnwys Cymorth Cristnogol. Un ffordd (er y gall fod eraill) o weithredu'r egwyddor honno yw mynnu bod llywodraethau gwledydd sy'n allyrru llawer yn cyflwyno Treth Difrod Hinsawdd ar y diwydiant tanwydd ffosil, yn seiliedig ar eu hechdynnu ar lo, olew a nwy: byddai cyfran o'r dreth hon yn cael ei defnyddio i ddigolledu cymunedau a gwledydd yr effeithir arnynt gan ddifrod a achosir gan eithafion hinsawdd.

---

<sup>1</sup> <https://us.boell.org/en/unpacking-finance-loss-and-damage>

### **Yr hyn yr ydym yn galw amdano:**

- Rhaid i wledydd cyfoethog/diwydiannol/datblygedig ymestyn eu cefnogaeth i wledydd sy'n datblygu ar gyfer osgoi, lleihau ac ymdrin â Cholled a Difrod i gydnabod eu cyfrifoldeb hanesyddol am newid hinsawdd.
- Ar y gyfradd bresennol o newid hinsawdd, a hyd yn oed pe bai'n dod i ben heddiw, yn absenoldeb ymdrechion lliniaru ac addasu digonol ond cynyddu bydd y galw am gyllid Colled a Difrod. Mae angen ffrwd ariannu ar wahân ar gyfer Colled a Difrod a rhaid iddo fod yn ychwanegol at gyllid ar gyfer lliniaru ac addasu.
- Gan ddefnyddio'r egwyddor 'Y Llygrwr sy'n Talu', mae angen i lywodraethau gytuno ar ffordd i ariannu effeithiau Colled a Difrod, megis trwy drethu cynhyrchu tanwydd ffosil.
- Er mwyn diogelu merched a chymunedau ymylol rhag Colled a Difrod achosir gan ddigwyddiadau tywydd eithafol a digwyddiadau sy'n datblygu'n araf, bydd amddiffyniad cymdeithasol trawsnewidiol yn hollbwysig. Dylai llywodraethau nodi ffynonellau ariannu ar gyfer datblygu systemau diogelu cymdeithasol cenedlaethol i ymateb i risgiau'r presennol a'r dyfodol.

Gyda diolch i Gymorth Cristnogol am y wybodaeth am Golled a Difrod.



### 3. Tröedigaeth Ecolegol

#### Beth yw "Tröedigaeth Ecolegol?"

"Mae anialwch allanol y byd yn tyfu, am fod yr anialwch mewnol bellach mor helaeth.' Am y rheswm hwn, mae'r argyfwng ecolegol hefyd yn alwad i 'dröedigaeth fewnol'. Yr hyn sydd ei angen arnom ni i gyd yw 'tröedigaeth ecolegol', 'lle daw effeithiau eu cyfarfyddiad â lesu Grist yn amlwg yn eu perthynas â'r byd o'u cwmpas. Mae byw ein galwad i fod yn amddiffynwyr gwaith Duw yn hanfodol i fywyd rhinweddol; nid agwedd ddewisol neu eilradd ydyw yn ein profiad Cristnogol.'" (LS 217).

**ECOLEG:** Edrych ar ryngweithio rhwng pethau byw yn ogystal â'u hamgylchedd.

**TRÖEDIGAETH:** Newid radical o ran calon a meddwl, gan arwain at newid radical o ran byw.

"Nid Duw ydym ni" (LS 67). Fe'n gelwir, fodd bynnag, i fod mewn perthynas gariadus â Duw y Creawdwr, y mae "popeth yn rhyng-gysylltiedig" trwyddo. Mae dechrau Genesis yn portreadu bywyd dynol fel un "wedi'i seilio ar dair perthynas sylfaenol sydd wedi'u cydblethu'n agos: â Duw, â'n cymydog ac â'r ddaear ei hun" (LS 66).

Fodd bynnag, "mae'r tair perthynas hollbwysig hyn wedi'u torri, yn allanol ac oddi mewn i ni. Pechod yw'r rhwyg hwn. Tarfwyd ar y cytgorod rhwng y Creawdwr, y ddynoliaeth a'r greadigaeth yn ei chyfarwydd gennym ni yn rhyfygu cymryd lle Duw a gwrthod cydnabod ein cyfyngiadau fel creaduriaid." Mae'r rhagdybiaeth hon wedi ein harwain i ddod yn "feistri, defnyddwyr, ecsbloetwyr didostur", yn hytrach na stiwardiaid i'r Ddaear a'i thrigolion (LS 11).

'Tröedigaeth ecolegol' yw'r broses o wella'r rhwyg triphlyg hwn. Estynnir y gair 'ecolegol', a fwriedir i ddisgrifio perthynas fiolegol, yn eang ac yn ddwfn i gynnwys y berthynas rhwng Duw, y ddynolryw a phob creadur byw. Daw'r dröedigaeth trwy ras Duw - efallai trwy gael eich cyfareddu gan rywbeth hardd, neu drwy gydnabod camwedd, fel y cawn ein darostwng a'n cydnabod ein hunain yn greaduriaid yn hytrach nag yn dduwiau. Felly:

- Trown ein calonnau yn gyntaf at Dduw, Creawdwr, Gair a wnaethpwyd yn gnawd o fewn y Cread, ac Ysbryd, a anfonwyd i fod gyda ni bob amser.
- Mae hyn yn ein harwain i glywed cri y tlodion, ein brodyr a'n chwiorydd dynol mewn angen, ac i droi ein calonnau atynt hwythau hefyd.
- Mae caru Duw a phobl eraill yn ein galluogi i glywed cri'r ddaear, ein cartref cyffredin, ac i ofalu am ei holl greaduriaid.

Er mwyn adfer y cytgorod rhwng y Creawdwr, y ddynoliaeth a'r greadigaeth, mae angen inni edifarhau, i ailfeddwl ein bywydau. Mae hyn yn ein harwain i gofleidio symlrwydd a chymedroldeb bwriadol yn ein bywydau, i sychedu am gyfiawnder ac i fyw gyda diolchgarwch a llawenydd.

Mae Sant Ffransis yn fodel o “ecoleg annatod sydd wedi’i byw’n llawen ac yn ddilys”, “cyfriniwr a phererin oedd yn byw mewn symlrwydd ac mewn cytgordd rhyfeddol â Duw, ag eraill, â natur a chydag ef ei hun. Mae’n dangos i ni pa mor anwahanadwy yw’r cwlwm rhwng gofal am natur, cyfiawnder i’r tlodion, ymrwymiad i gymdeithas, a thangnefedd mewnol.” (LS 10).

Gyda diolch i’r Grŵp Tröedigaeth Ecolegol am y wybodaeth am Dröedigaeth Ecolegol.

Testun gan y Grŵp Tröedigaeth Ecolegol. Llundain wedi’u hatgynhyrchu gyda chaniatâd © John Paul de Quay. Pob dyfyniad o Laudato Si’, Pab Ffransis, 2015. [www.theecg.org](http://www.theecg.org) [www.journeyto2030.org](http://www.journeyto2030.org)

